O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2007 Rhif 2396 (Cy.198)

TIROEDD COMIN, CYMRU

Rheoliadau Tiroedd Comin (Cofrestru Meysydd Tref neu Bentref) (Trefniadau Interim) (Cymru) 2007

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae adran 15 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 ("Deddf 2006") yn darparu sail ddiwygiedig dros ofyn am gofrestru tir yn faes tref neu bentref.

Yn rhannol yn unig y daethpwyd â Rhan I o Ddeddf 2006 i rym. Yn benodol, nid yw adrannau 1 i 3 mewn grym eto. Nes i hynny ddigwydd, nid oes modd cynnwys meysydd newydd yn y gofrestr o feysydd tref neu bentref sydd i'w chynnal yn unol â Deddf 2006. Tan hynny, mae'r Rheoliadau hyn yn galluogi'r awdurdodau cofrestru i gofrestru tir, sy'n bodloni'r meini prawf cofrestru sydd wedi'u nodi yn adran 15(1) neu 15(8) o Ddeddf 2006, yn y gofrestr o feysydd tref neu bentref sy'n cael ei chynnal yn unol â Deddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965 ("Deddf 1965").

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu—

(a) y weithdrefn ar gyfer gwneud cais am gofrestru tir yn faes tref neu bentref (rheoliad 3);

(b) y weithdrefn ar gyfer ymdrin â cheisiadau am gofrestru (rheoliadau 4 i 7); ac

(c) dull cofrestru tir yn faes tref neu bentref ar ôl i gais gael ei ganiatáu (rheoliad 8).

Mae'r Rheoliadau hyn yn disodli'r darpariaethau perthnasol yn Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Tir Newydd) 1969 (O.S. 1969/1843) ("Rheoliadau 1969") ar gyfer cofrestru meysydd tref neu bentref newydd o dan Ddeddf 1965. Er hynny, mae Rheoliadau 1969 yn parhau mewn grym er mwyn i feysydd newydd a thiroedd comin newydd gael eu cofrestru at y dibenion a bennir yn yr arbedion a geir yn erthygl 4(1) o Orchymyn Deddf Tiroedd Comin

2006 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/2386) (Cy.197) (C.88).

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2007 Rhif 2396 (Cy. 198)

TIROEDD COMIN, CYMRU

Rheoliadau Tiroedd Comin (Cofrestru Meysydd Tref neu Bentref) (Trefniadau Interim) (Cymru) 2007

Wedi'u gwneud *12 Awst 2007*

Wedi'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru *14 Awst 2007*

Yn dod i rym *6 Medi 2007*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r awdurdod cenedlaethol priodol gan adrannau 24 a 59 o Ddeddf Tiroedd Comin 2006(**1**) ac adran 26 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol(**3**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tiroedd Comin (Cofrestru Meysydd Tref neu Bentref) (Trefniadau Interim) (Cymru) 2007.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Medi 2007.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Cwmpas a Dehongli

2.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i geisiadau a wneir i awdurdod cofrestru o dan adran 15(1) neu (8) o Ddeddf 2006 am gofrestru tir yn faes tref neu bentref.

(**1**) 2006 p.26.

(**2**) 1993 p.38.

(**3**) *Gweler* adran 61(1) o Ddeddf 2006 i gael ystyr "awdurdod cenedlaethol priodol" ("*appropriate national authority*"), y mae ei swyddogaethau yn arferadwy erbyn hyn, o ran Cymru, gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(2) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "awdurdod cofrestru" ("*registration authority*") yw awdurdod cofrestru tiroedd comin;

ystyr "awdurdod o dan sylw" ("*concerned authority*"), mewn perthynas â chais i awdurdod cofrestru, yw awdurdod lleol (heblaw'r awdurdod cofrestru) y mae unrhyw ran o'r tir y mae'r cais yn effeithio arno yn gorwedd yn ei ardal; ac ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") yw cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned;

ystyr "Deddf 2006" ("*the 2006 Act*") yw Deddf Tiroedd Comin 2006;

ystyr "ffurflen 44" ("*form 44*") a "ffurflen 45" ("*form 45*") yw'r ffurflenni sy'n dwyn y rhifau hynny yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn neu'r ffurflenni hynny ac unrhyw amrywiadau y mae eu hangen o dan yr amgylchiadau; ac

ystyr "y Rheoliadau Cyffredinol" ("*the General Regulations*") yw Rheoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Cyffredinol) 1966(**1**); ac ystyr "Rheoliad Cyffredinol" ("*General Regulation*") a rhif ar ei ôl yw'r rheoliad sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau Cyffredinol.

(3) Pan fo cyfreithiwr wedi'i gyfarwyddo at ddibenion cais, bernir bod unrhyw ofyniad bod rhaid i awdurdod cofrestru anfon unrhyw beth at "y ceisydd" wedi'i fodloni drwy ei anfon at y cyfreithiwr neu, os oes dau neu ragor o bersonau wedi gwneud cais ar y cyd ac nad oes cyfreithiwr wedi'i gyfarwyddo, at y person y gwelir ei enw yn gyntaf ar y ffurflen gais.

(4) Mae gofyniad bod rhaid i awdurdod cofrestru stampio unrhyw ddogfen yn ofyniad iddo osod argraff ei stamp swyddogol arni yn unol â'r disgrifiad yn Rheoliad Cyffredinol 3, sef stamp swyddogol y mae'n rhaid iddo gynnwys y dyddiad a grybwyllir yn y gofyniad neu (os na chyfeirir at ddyddiad) y dyddiad y gosodwyd y stamp.

(5) Caniateir i Ffurflen 44 fod yn y Gymraeg neu'r Saesneg, neu yn y ddwy iaith.

(6) Rhaid i Ffurflen 45 fod yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cais am gofrestru tir yn faes tref neu bentref

3.—(1) Rhaid i gais am gofrestru tir yn faes tref neu bentref gael ei wneud yn unol â'r Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i gais—

(**1**) O.S. 1966/1471, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1968/658, 1968/989, 1969/1843, 1980/1195, 1982/210, 1989/2167, 1990/311, 1994/2567 a 2003/994 (Cy.143) ac fel y'i newidiwyd gan O.S. 1991/2684.

(a) cael ei wneud ar ffurflen 44;

(b) cael ei lofnodi gan bob ceisydd sy'n unigolyn a chan ysgrifennydd pob ceisydd sy'n gorff corfforaethol neu anghorfforaethol neu ryw swyddog arall iddo sydd wedi'i awdurdodi'n briodol;

(c) cael ei gyflwyno ynghyd â phob dogfen sy'n ymwneud â'r mater sydd ym meddiant y ceisydd neu o dan ei reolaeth, neu y mae gan y ceisydd hawl i'w dangos, neu ynghyd â chopi neu grynodeb digonol o bob dogfen o'r fath; ac

(ch) cael ei ategu—

(i) â datganiad statudol fel y'i nodir yn ffurflen 44, gydag unrhyw addasiadau y mae eu hangen yn ôl gofynion yr achos, a

(ii) ag unrhyw dystiolaeth arall y mae'n rhesymol i'r awdurdod cofrestru ofyn amdani, ar unrhyw adeg cyn iddo benderfynu'n derfynol ar y cais.

(3) Rhaid i ddatganiad statudol i ategu cais gael ei wneud–

(d) gan y ceisydd, neu gan un o'r ceiswyr os oes mwy nag un;

(dd) gan y person a lofnododd y cais ar ran ceisydd sy'n gorff corfforaethol neu anghorfforaethol; neu

(e) gan gyfreithiwr sy'n gweithredu ar ran y ceisydd.

Y weithdrefn ar ôl i geisiadau ddod i law

4.—(1) Ar ôl i gais ddod i law, rhaid i'r awdurdod cofrestru—

(a) rhoi rhif adnabod i'r cais a'i farcio â'r rhif hwnnw; a

(b) stampio'r ffurflen gais i nodi'r dyddiad y daeth i law.

(2) Rhaid i'r awdurdod cofrestru anfon derbynneb at y ceisydd ar gyfer y cais a honno'n cynnwys datganiad o'r rhif a roddwyd iddo; ac mae Ffurflen 6, o'i defnyddio at y diben hwnnw, yn ddigonol.

(3) Yn y rheoliad hwn, ystyr "Ffurflen 6" yw'r ffurflen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Rheoliadau Cyffredinol.

Y weithdrefn ar gyfer ceisiadau y mae adran 15(1) o Ddeddf 2006 yn gymwys iddynt

5.—(1) Pan wneir cais o dan adran 15(1) o Ddeddf 2006 am gofrestru tir yn faes tref neu bentref, yn ddarostyngedig i baragraff (4), ar ôl i gais ddod i law, rhaid i'r awdurdod cofrestru—

(a) anfon hysbysiad, drwy'r post, ar ffurflen 45 at bob person (heblaw'r ceisydd) y mae gan yr awdurdod cofrestru reswm dros gredu (boed drwy wybodaeth a roddwyd gan y ceisydd neu fel arall) ei fod yn berchennog, prydleswr, tenant neu feddiannwr ar unrhyw ran o'r tir y mae'r cais yn effeithio arno, neu ei fod yn debyg o ddymuno gwrthwynebu'r cais;

(b) cyhoeddi yn yr ardal o dan sylw, ac arddangos, yr hysbysiad a ddisgrifiwyd yn is-baragraff (a) ac anfon yr hysbysiad a chopi o'r cais at bob awdurdod o dan sylw; ac

(c) gosod yr hysbysiad ar ryw wrthrych amlwg ar unrhyw ran o'r tir sy'n agored, heb ei gau a heb ei feddiannu, oni bai ei bod yn ymddangos i'r awdurdod cofrestru na fyddai gweithredu felly yn rhesymol ymarferol.

(2) Rhaid i'r dyddiad sydd i'w fewnosod mewn hysbysiad o dan baragraff (1)(a) yn ddyddiad pryd y mae'n rhaid i ddatganiadau ysgrifenedig i wrthwynebu cais gael eu cyflwyno i'r awdurdod cofrestru ganiatáu cyfnod o nid llai na chwe wythnos ar ôl yr olaf o'r canlynol—

(a) y dyddiad y mae'n rhesymol disgwyl i'r hysbysiad gael ei draddodi yng nghwrs arferol y post i'r personau y mae wedi'i anfon atynt o dan baragraff (1)(a); neu

(b) y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad a'i arddangos gan yr awdurdod cofrestru.

(3) Rhaid i bob awdurdod o dan sylw sy'n cael hysbysiad a chopi o gais o dan y rheoliad hwn—

(a) arddangos copïau o'r hysbysiad ar unwaith; a

(b) cadw'r copi o'r cais ar gael i'w archwilio gan y cyhoedd ar bob adeg resymol nes i'r awdurdod cofrestru roi gwybod bod y cais wedi'i benderfynu.

(4) Pan fo'n ymddangos i'r awdurdod cofrestru ar ôl ystyriaeth ragarweiniol nad yw cais wedi'i wneud yn briodol, caiff yr awdurdod ei wrthod heb gydymffurfio â pharagraff (1), ond, os yw'n ymddangos i'r awdurdod y gallai unrhyw gam gan y ceisydd adfer y cais i drefn, rhaid i'r awdurdod beidio â gwrthod y cais o dan y paragraff hwn heb roi cyfle rhesymol yn gyntaf i'r ceisydd gymryd y cam hwnnw.

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr "ardal o dan sylw" yw ardal sy'n cynnwys ardal pob un o'r awdurdodau o dan sylw.

(6) Mae gofyniad i awdurdod cofrestru gyhoeddi hysbysiad mewn unrhyw ardal yn ofyniad iddo beri i'r ddogfen gael ei chyhoeddi mewn un neu ragor o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal honno y mae'n ymddangos i'r awdurdod eu bod yn ddigonol i sicrhau cyhoeddusrwydd digonol iddo.

(7) Mae gofyniad i arddangos hysbysiad neu gopïau o hysbysiadau yn ofyniad i'w drin, at ddibenion adran 232 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (hysbysiadau cyhoeddus)(**1**), fel pe bai'n hysbysiad cyhoeddus o fewn ystyr yr adran honno.

Ystyried gwrthwynebiadau

6.— (1) Pan wneir cais o dan adran 15(1) o Ddeddf 2006 am gofrestru tir yn faes tref neu bentref, cyn gynted ag y gellir ar ôl y dyddiad pryd y mae'n ofynnol i ddatganiadau sy'n gwrthwynebu cais gael eu cyflwyno, rhaid i'r awdurdod cofrestru fwrw ymlaen i ystyried y cais ymhellach, ac i ystyried y datganiadau (os oes rhai) sy'n gwrthwynebu'r cais hwnnw, yn unol â'r darpariaethau canlynol yn y rheoliad hwn.

(2) Mae'r awdurdod cofrestru—

(a) yn gorfod ystyried pob datganiad ysgrifenedig sy'n gwrthwynebu cais ac sy'n dod i law cyn y dyddiad y mae'n bwrw ymlaen i ystyried y cais ymhellach o dan baragraff (1); a

(b) yn cael ystyried unrhyw ddatganiad o'r fath sy'n dod i law ar neu ar ôl y dyddiad hwnnw a chyn iddo benderfynu'n derfynol ar y cais.

(3) Rhaid i'r awdurdod cofrestru anfon copi at y ceisydd o bob datganiad y mae'n ofynnol o dan baragraff (2) i'r awdurdod cofrestru ei ystyried ac o bob datganiad y caniateir i'r awdurdod cofrestru ei ystyried ac y mae'n bwriadu ei ystyried.

(4) Rhaid i'r awdurdod cofrestru beidio â gwrthod y cais heb roi cyfle rhesymol i'r ceisydd ymdrin—

(a) â'r materion a gynhwyswyd mewn unrhyw ddatganiad yr anfonwyd copïau ohono at y ceisydd o dan baragraff (3); a

(b) unrhyw fater arall mewn perthynas â'r cais y mae'n ymddangos i'r awdurdod ei fod yn cynnig seiliau posibl dros wrthod y cais.

Y weithdrefn ar gyfer ceisiadau y mae adran 15(8) o Ddeddf 2006 yn gymwys iddynt

7.Pan wneir cais o dan adran 15(8) o Ddeddf 2006 am gofrestru tir yn faes tref neu bentref, rhaid i'r awdurdod cofrestru ganiatáu'r cais ar yr amod bod yr awdurdod cofrestru wedi'i fodloni—

(a) mai'r ceisydd yw perchennog y tir; a

(b) bod unrhyw gydsyniadau y mae'n ofynnol eu sicrhau o dan adran 15(9) o Ddeddf 2006 wedi eu sicrhau.

(**1**) 1972 p.70.

Dull cofrestru

8.—(1) Pan fo'r awdurdod cofrestru yn caniatáu cais, rhaid iddo wneud y gwaith cofrestru angenrheidiol, gan ddilyn mor agos ag y gellir Gofnod Enghreifftiol Rhif 4 gydag unrhyw amrywiadau ac addasiadau y mae eu hangen o dan yr amgylchiadau, ond gan roi yn lle'r geiriau "(Registration provisional.)", y geiriau "(Registration under section 15 of the Commons Act 2006.)".

(2) Mae darpariaethau paragraffau (2) i (6) o Reoliad Cyffredinol 10 yn gymwys i gofrestru o dan y Rheoliadau hyn fel y maent yn gymwys i gofrestru yn unol â'r Rheoliadau Cyffredinol gyda'r addasiadau canlynol—

(a) ym mharagraff (2), ar ôl y geiriau "Form 2, and", mewnosoder ", to the extent required,"; a

(b) ym mharagraff (5), nid yw'r geiriau "for the Register of Common Land shall bear the prefix CL, and every such number" yn gymwys.

(3) Mae darpariaethau rheoliad 9 o Reoliadau Cofrestru Tiroedd Comin (Gwrthwynebiadau a Mapiau) 1968(**1**) (newidiadau ynglŷn â mapiau cofrestru dros dro) yn gymwys at ddibenion adran 15 o Ddeddf 2006 fel y maent yn gymwys at ddibenion adran 4 o Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965(**2**) gyda'r addasiadau canlynol—

(a) nid yw paragraffau (1), (2) a (3) yn gymwys;

(b) ystyr "new map" yw unrhyw fap a ddefnyddir at ddibenion y rheoliad hwn; ac

(c) ym mharagraff (4), yn lle'r geiriau "six inches to one mile", rhodder "1:2,500".

(4) Rhaid i bob map newydd a ddefnyddir gael ei stampio gan yr awdurdod cofrestru, a'i lofnodi ar ran yr awdurdod cofrestru, ac mae'n ffurfio rhan o'r gofrestr.

(5) Pan fo'r tir sy'n destun cais eisoes wedi'i gofrestru yn dir comin yn y gofrestr o dir comin, rhaid i'r awdurdod cofrestru, hefyd,—

(a) pan fo hawliau comin wedi'u cofnodi yn y gofrestr honno, wneud cofnod cyfatebol yn y gofrestr o feysydd tref neu bentref; a

(b) addasu'r cofnod yn y gofrestr o diroedd comin fel bod y tir sy'n destun y cais yn peidio â chael ei gofrestru mwyach yn dir comin.

(**1**) O.S. 1968/989, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1969/1843, 1970/384 a 1990/311.

(**2**) 1965 p.64.

(6) Pan fo awdurdod cofrestru wedi cofrestru o dan y rheoliad hwn, rhaid iddo ffeilio'r ffurflen gais ac unrhyw gynllun a dychwelyd pob dogfen arall a gafwyd gyda'r cais i'r ceisydd.

(7) Yn y rheoliad hwn—

(a) ystyr "Cofnod Enghreifftiol Rhif 4" ("*Model Entry No.4*") yw'r cofnod enghreifftiol sy'n dwyn y rhif hwnnw yn Rhan I o Atodlen 2 i'r Rheoliadau Cyffredinol; a

(b) mae "cofrestr o diroedd comin" ("*register of common land*") a "chofrestr o feysydd tref neu bentref" ("*register of town or village greens*") yn cyfeirio at y cofrestrau sy'n cael eu cynnal gan awdurdod cofrestru yn unol ag adran 3 o Ddeddf 1965(**1**).

Gwybodaeth am benderfynu ar geisiadau, a'r weithdrefn ar ôl i gais gael ei wrthod

9.—(1) Pan fo'r awdurdod cofrestru wedi penderfynu ar gais ac, os yw wedi caniatáu'r cais, pan yw wedi gwneud y gwaith cofrestru angenrheidiol, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig ynglŷn â'r ffaith-

(a) i bob awdurdod o dan sylw;

(b) i'r ceisydd; ac

(c) i bob person y mae ei gyfeiriad yn hysbys i'r awdurdod cofrestru ac a wrthwynebodd y cais.

(2) Rhaid i'r hysbysiad hwnnw gynnwys, pan fo'r awdurdod cofrestru wedi caniatáu'r cais, fanylion y cofrestru a, pan fo wedi gwrthod y cais, y rhesymau dros ei wrthod.

(3) Bernir bod person wedi gwrthwynebu cais at ddibenion paragraff (1) os cyflwynodd y person hwnnw ddatganiad o wrthwynebiad i'r cais y bu'n ofynnol i'r awdurdod cofrestru ei ystyried o dan baragraff (2) o reoliad 6 neu a ystyriodd yr awdurdod cofrestru o dan y paragraff hwnnw.

(4) Pan fo'r awdurdod cofrestru wedi gwrthod cais, rhaid iddo ddychwelyd y ffurflen gais a'r holl ddogfennau a gafwyd gyda hi i'r ceisydd.

Disgrifiadau tir

10.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i ddisgrifiad unrhyw dir sy'n destun cais am gofrestru yn faes tref neu bentref.

(**1**) Yn ôl erthygl 4(1) o Orchymyn Deddf Tiroedd Comin 2006 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Trosiannol ac Arbedion) (Cymru) 2007 (O.S. 2007/2386) (Cy.197) (C.88), mae maes sy'n cydymffurfio â'r meini prawf o dan adran 15 o Ddeddf 2006 i'w gofnodi yn y gofrestr sy'n cael ei chynnal gan awdurdod cofrestru yn unol â Deddf 1965.

(2) Rhaid i dir gael ei ddisgrifio at ddibenion unrhyw gais—

(a) drwy gyfrwng map Ordnans sy'n cyd-fynd â'r cais ac y cyfeirir ato yn y cais hwnnw; neu

(b) yn achos tir sydd eisoes wedi'i gofrestru yn dir comin, os yw'r cais yn ymwneud â'r cyfan o'r tir mewn uned yn y gofrestr, drwy gyfeirio at yr uned honno yn y gofrestr.

(3) Rhaid i unrhyw fap Ordnans sy'n cyd-fynd â chais—

(a) bod ar raddfa o ddim llai nag 1:2,500;

(b) dangos y tir sydd i'w ddisgrifio drwy gyfrwng lliw amlwg; ac

(c) cael ei farcio fel arddangosyn i'r datganiad statudol o blaid y cais.

(4) Yn y rheoliad hwn, mae i "uned yn y gofrestr" yr un ystyr ag sydd i "register unit" yn y Rheoliadau Cyffredinol.

Jane Davidson

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai, un o Weinidogion Cymru

12 Awst 2007

ATODLEN Rheoliad 2(2)

Ffurflenni

Ffurflen 44

Deddf Tiroedd Comin 2006: Adran 15

Cais am gofrestru tir yn Faes Tref neu Bentref

Stamp swyddogol yr awdurdod cofrestru sy'n dangos dyddiad dod i law dilys:

Rhif y cais:

Rhif(au) uned yn y gofrestr:

Rhif VG a roddwyd wrth gofrestru:

(Y CRA i lenwi hon os yw'r cais yn llwyddiannus yn unig)

Cynghorir y ceiswyr i ddarllen y 'Nodiadau Cyfarwyddyd ar lenwi Cais am gofrestru tir yn Faes Tref neu Bentref' a nodi'r canlynol:

- Dylai pob ceisydd lenwi cwestiynau 1 i 6 a 10 ac 11.
- Dylai ceiswyr sy'n gwneud cais am gofrestru o dan adran 15(1) o Ddeddf 2006 lenwi cwestiynau 7 ac 8 fel y bo'n briodol hefyd. Mae adran 15(1) yn galluogi unrhyw berson i wneud cais am gofrestru tir yn faes pan fo'r meini prawf ar gyfer cofrestru yn adran 15(2), (3) neu (4) yn gymwys.
- Dylai ceiswyr sy'n gwneud cais am gofrestru gwirfoddol o dan adran 15(8) lenwi cwestiwn 9 hefyd.

1. Awdurdod Cofrestru

Nodyn 1
Rhowch enw'r awdurdod cofrestru.

At

Nodyn 2
Os oes mwy nag un ceisydd, rhestrwch bob enw. Defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen un. Rhowch deitl llawn y sefydliad os yw'n gorff corfforaethol neu anghorfforaethol.

Os na lenwir cwestiwn 3, anfonir yr holl ohebiaeth a'r holl hysbysiadau at y ceisydd cyntaf a enwir.

2. Enw a chyfeiriad y ceisydd

Enw:

Cyfeiriad post llawn:

Cod post

Rhif ffôn:
(gan gynnwys y cod deialu)

Rhif ffacs:
(gan gynnwys y cod deialu)

Cyfeiriad e-bost:

Nodyn 3
Dylai'r cwestiwn hwn gael ei lenwi os oes cyfreithiwr wedi'i gyfarwyddo at ddibenion y cais. Os oes, anfonir yr holl ohebiaeth a'r holl hysbysiadau at y person neu'r ffyrm a enwir yma.

3. Enw a chyfeiriad y cyfreithiwr, os oes un

Enw:

Ffyrm:

Cyfeiriad post llawn:

Cod post

Rhif ffôn:
(gan gynnwys y cod deialu)

Rhif ffacs:
(gan gynnwys y cod deialu)

Cyfeiriad e-bost:

4. Sail y cais am gofrestru a'r meini prawf cymhwyso

Nodyn 4
I gael rhagor o gyngor ar y meini prawf a'r dyddiadau ar gyfer cofrestru gweler adran 4 o'r Nodiadau Cyfarwyddyd.

Os chi yw perchennog y tir a'ch bod am gofrestru'ch tir o'ch gwirfodd, ticiwch y blwch hwn ac ewch i gwestiwn 5.

Cais yn cael ei wneud o dan **adran 15(8):** ☐

Os yw'r cais yn cael ei wneud o dan **adran 15(1)** o'r Ddeddf, **ticiwch un** o'r blychau canlynol i ddangos pa is-adran a pha faen prawf cymhwyso penodol sy'n gymwys i'r achos.

Mae **adran 15(2)** yn gymwys: ☐

** Mae adran 15(6) yn caniatáu i unrhyw gyfnod cau statudol pan waherddir mynediad i'r tir gael ei anwybyddu wrth bennu'r cyfnod o 20 mlynedd.*

Mae **adran 15(3)** yn gymwys: ☐

Mae **adran 15(4)** yn gymwys: ☐

Os yw **adran 15(3) neu (4)** yn gymwys, nodwch ar ba ddyddiad y daeth y defnydd hwnnw fel mater o hawl i ben yn eich barn chi.

Os yw **adran 15(6)*** yn gymwys, nodwch y cyfnod cau statudol (os oes un) y mae angen ei anwybyddu.

5. Disgrifiad a manylion y darn tir y mae'r cais am gofrestru yn cael ei wneud mewn perthynas ag ef

Nodyn 5
Rhaid i'r map sy'n cyd-fynd â'r disgrifiad fod ar raddfa o 1:2,500 o leiaf a dangos y tir mewn lliw amlwg er mwyn iddo gel ei adnabod yn glir.

Enw arferol y darn tir:

Lleoliad:

**I'w lenwi dim ond os yw'r tir wedi'i gofrestru yn dir comin eisoes.*

Wedi'i ddangos mewn lliw ar y map sydd wedi'i farcio ac wedi'i atodi i'r datganiad statudol.

Rhif yr uned yn y gofrestr o diroedd comin (os yw'n berthnasol) *****

Nodyn 6
Efallai y gellir dangos lleoliad y maes drwy gyfeirio at ardal weinyddol, megis cyngor cymuned neu dref, ward etholiadol neu ardal arall sydd wedi'i diffinio'n ddigonol wrth ei enw (megis pentref neu stryd). Os na ellir gwneud hyn, dylid darparu map y mae lleoliad neu gymdogaeth wedi'u marcio arno'n glir.

6. Y lleoliad neu'r gymdogaeth yn y lleoliad y mae'r cais yn cael ei wneud mewn perthynas ag ef neu hi

Dangoswch y lleoliad neu'r gymdogaeth yn y lleoliad y mae'r maes honedig yn ymwneud ag ef neu hi, naill ai drwy ysgrifennu enw'r ardal weinyddol neu'r ardal ddaearyddol isod, neu drwy atodi map y mae'r ardal wedi'i marcio arno'n glir:

Ticiwch yma os oes map wedi'i atodi: ☐

7. Y cyfiawnhad dros y cais am gofrestru'r tir yn faes tref neu bentref

Nodyn 7
Dylai'r ceiswyr roi crynodeb o'r achos o blaid cofrestru yma ac amgáu datganiad llawn ar wahân a phob tystiolaeth arall gan gynnwys unrhyw ddatganiadau gan dystion i ategu'r cais.

Nid oes angen yr wybodaeth hon os oes perchennog tir yn gwneud cais am gofrestru'r tir yn faes o dan adran 15(8).

Nodyn 8
Defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen un.

Pan fo'n berthnasol, cynhwyswch gyfeiriad at rifau teitl yn y gofrestr teitlau sy'n cael ei chadw gan y Gofrestrfa Tir.

Os nad oes neb wedi'i enwi yn yr adran hon, dylech ysgrifennu "neb".

Nid oes angen yr wybodaeth hon os oes perchennog tir yn gwneud cais am gofrestru'r tir yn faes o dan adran 15(8).

8. Enw a chyfeiriad pob person y mae'r ceisydd yn credu ei fod yn berchennog, lesddeiliad, tenant neu feddiannydd ar unrhyw ran o'r tir yr honnir ei fod yn faes tref neu bentref

Nodyn 9
Rhestrwch bob datganiad o'r fath sy'n cyd-fynd â'r cais. Os nad oes angen yr un, ysgrifennwch "dim".

Nid oes angen yr wybodaeth hon os oes cais yn cael ei wneud am gofrestru'r tir yn faes o dan adran 15(1).

9. Cofrestru gwirfoddol - datganiadau cydsyniad gan 'lesddeiliad perthnasol', a pherchennog unrhyw 'bridiant perthnasol' dros y tir

Nodyn 10
Rhestrwch bob dogfen ategol a map sy'n cyd-fynd â'r cais. Os nad oes yr un, ysgrifennwch "dim".

Defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen un.

10. Dogfennau ategol

Nodyn 11
Os oes unrhyw faterion eraill y dylid tynnu sylw'r awdurdod cofrestru atynt (yn benodol os disgwylir i berson sydd â buddiant yn y tir herio'r cais am gofrestru, dylid rhoi'r manylion llawn yma neu ar ddalen ar wahân os oes angen un.

11. Unrhyw wybodaeth arall am y cais

Nodyn 12
Rhaid i'r cais gael ei lofnodi gan bob ceisydd unigol, neu gan swyddog awdurdodedig i geisydd sy'n gorff corfforaethol neu anghorfforaethol.

Dyddiad:

Llofnodion:

I ATGOFFA'R CEISYDD

Fe'ch cynghorir i gadw copi o'r cais a'r holl ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r cais.
Dylai'r ceiswyr fod yn ymwybodol bod llofnodi'r datganiad statudol yn llw eich bod yn datgan y gwir wrth gyflwyno'r cais a'r dystiolaeth sy'n cyd-fynd ag ef. Gall gwneud datganiad ffug at ddibenion y cais hwn olygu bod y sawl sy'n ei wneud yn agored i'w erlyn.

Deddf Diogelu Data 1998

Ni ellir trin y cais nac unrhyw sylwadau fel pe baent yn gyfrinachol. Er mwyn penderfynu ar y cais bydd yn angenrheidiol i'r awdurdod cofrestru ddatgelu gwybodaeth y mae wedi'i chael oddi wrthych chi i eraill, sy'n gallu cynnwys awdurdodau lleol eraill, Adrannau o'r Llywodraeth, cyrff cyhoeddus, sefydliadau eraill ac aelodau o'r cyhoedd.

Datganiad Ategol Statudol

I'w wneud gan y ceisydd, neu gan un o'r ceiswyr, neu gan gyfreithiwr y ceisydd neu'r ceiswyr, neu, os corff corfforaethol neu anghorfforaethol yw'r ceisydd, gan gyfreithiwr y corff hwnnw, neu gan y person a lofnododd y cais.

[1] *Rhowch yr enw llawn (a'r cyfeiriad os nad yw wedi'i roi yn y ffurflen gais).*

Yr wyf fi……,[1] yn datgan yn ddifrifol ac yn ddiffuant fel a ganlyn:

[2] *Dileer ac addaser yn ôl yr angen.*

[3] *Rhowch yr enw os yw'n gymwys.*

1.[2] Fi yw ((y person (un o'r personau) sydd wedi llofnodi'r cais uchod)) ((cyfreithiwr (y ceisydd) ([3] un o'r ceiswyr)).

2. Mae'r ffeithiau a nodwyd yn y ffurflen gcais hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred wedi'u datgan yn llawn ac yn wir ac nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ffaith arall y dylid tynnu sylw'r awdurdod cofrestru ati am ei bod yn debyg o effeithio ar benderfyniad yr awdurdod cofrestru ar y cais hwn, nac am unrhyw ddogfen sy'n ymwneud â'r mater heblaw'r rhai (os oes rhai) sydd wedi'u crybwyll yn Rhannau 10 ac 11 o'r cais.

3. Y map sydd yn awr yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r datganiad hwn yw'r map y cyfeirir ato yn Rhan 5 o'r cais.

[4] *I'w lenwi yn achos cofrestru gwirfoddol yn unig (i'w ddileu os nad yw hyn yn berthnasol)*

4. [4] Yr wyf drwy hyn yn gwneud cais o dan adran 15(8) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 am gofrestru yn faes y tir a nodwyd ar y map a bod hwnnw o dan fy mherchnogaeth i. Yr wyf wedi darparu'r datganiadau cydsyniad angenrheidiol canlynol:

(i) datganiad am berchnogaeth y tir;
(ii) datganiad bod pob cydsyniad angenrheidiol gan y lesddeiliad priodol neu gan berchennog unrhyw bridiant perthnasol dros y tir wedi dod i law

Parhad/

Parhad

a'u bod yn cael eu harddangos gyda'r datganiad hwn; neu
(iii) os nad oes angen cydsyniadau o'r fath, datganiad i'r perwyl hwnnw.

Ac yr wyf yn gwneud y datganiad difrifol hwn, gan gredu'n gydwybodol ei fod yn wir, ac yn rhinwedd Deddf Datganiadau Statudol 1835.

Datganwyd gan y a enwyd)
)
)
yn) *Llofnod y Datganwr*
)
)
y dydd hwn o)

Ger fy mron i *

Llofnod:

Cyfeiriad:

Cymhwyster:

*** Rhaid i'r datganiad statudol gael ei wneud gerbron ynad heddwch, cyfreithiwr sy'n ymarfer, comisiynydd llwon neu notari cyhoeddus.**

Mae llofnodi'r datganiad statudol yn llw eich bod yn datgan y gwir wrth gyflwyno'r cais a'r dystiolaeth sy'n cyd-fynd ag ef.

I ATGOFFA'R SWYDDOG SY'N CYMRYD Y DATGANIAD:

Rhowch lythrennau blaen eich enw gyferbyn â phob newid a marciwch unrhyw fap fel arddangosyn

FFURFLEN 45

DEDDF TIROEDD COMIN 2006 — ADRAN 15(1)

Hysbysiad o gais am gofrestru tir yn Faes Tref neu Bentref

I bob perchennog, lesddeiliad, tenant neu feddiannydd ar unrhyw ran o'r tir a ddisgrifir isod, ac i bawb arall a fynno wybod.

Mae cais wedi'i wneud i *(enw a chyfeiriad yr awdurdod cofrestru)* gan (*enw a chyfeiriad y ceisydd*) o dan adran 15(1) o Ddeddf Tiroedd Comin 2006 ac yn unol â Rheoliadau Tiroedd Comin (Cofrestru Meysydd Tref neu Bentref) (Trefniadau Interim) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007"). Mae'r cais yn gofyn am gynnwys yn y gofrestr o feysydd tref a phentref y tir a ddisgrifir yn yr Atodlen isod yr honnir ei fod yn gymwys i'w gofrestru'n faes tref neu bentref ar (*y cyfnod a roddwyd yng nghwestiwn 4 o Ffurflen 44*) oherwydd (*crynodeb o'r achos a roddwyd yng nghwestiwn 7 o Ffurflen 44*).

Gellir archwilio'r cais, sy'n cynnwys cynllun y tir a gynigiwyd i'w gofrestru yn y swyddfa ganlynol …….. rhwng …….(*y cyfeiriad a'r amserau y bydd papurau'r cais ar gael*). Gellir archwilio copïau o'r dogfennau hefyd yn swyddfeydd yr awdurdodau lleol canlynol (*rhowch fanylion yr awdurdodau lleol o dan sylw os oes rhai*).

Os yw'r awdurdod cofrestru wedi'i fodloni bod y tir a ddisgrifir isod yn gymwys i'w gofrestru'n faes tref neu bentref, fe fydd yn cofrestru'r tir fel y cyfryw.

Dylai unrhyw berson sy'n dymuno gwrthwynebu cofrestru'r tir yn faes tref neu bentref anfon datganiad o'r ffeithiau y seilir y gwrthwynebiad arnynt i (*enw a chyfeiriad yr awdurdod cofrestru*) ar neu cyn (*rhowch y dyddiad - heb fod yn llai na chwe wythnos ar ôl dyddiad cyhoeddi ac arddangos yr hysbysiad neu ddyddiad ei draddodi yn unol â rheoliad 5(2) o Reoliadau 2007, p'un bynnag yw'r olaf*). [Caiff yr Awdurdod anwybyddu datganiadau sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwnnw os yw wedi bwrw ymlaen i ystyried y cais]. Ni ellir trin unrhyw ddatganiadau y mae'r awdurdod i'w cymryd i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad ar y cais fel pe baent yn gyfrinachol ac anfonir copïau ohonynt at y ceisydd i gael ei sylwadau a gellir eu datgelu i bartïon eraill sydd â buddiant yn hyn o beth.

Dyddiad

Llofnod (*llofnod ar ran yr awdurdod cofrestru*)

Atodlen

Disgrifiad o'r tir yr honnir ei fod yn gymwys i'w gofrestru yn faes tref neu bentref